

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 19 Chwefror 2010

Preseanol: Dr A R Beaumont (yn y Gadair), Miss S Barnes, Mr I Connor, Mr J East, Mr E Evans, Mr S George, Mr M Goodwin, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Miss E Riches, Mr E W. Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr I Salisbury, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Mr R Behi, Dr G Clarke, Mr H Ellis, Mr D N Fordham, Mrs L Fowlie, Mr P Hogan, Mr J Jackson, Dr D M Roberts, yr Athro P Spencer, Mr A Williams, Dr D Wright.

342. COFNODION

Cymerwyd bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2009, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

343. MATERION YN CODI

- (a) Cofnod 337 Adroddiad Hunan-werthuso Iechyd a Diogelwch Colegol ac Adrannol:
Yn awr, sefydlir Gweithgor i arolygu canfyddiadau Adroddiad 2008 ac i ystyried ffyrdd ymlaen.
- (b) Cofnod 339 Polisi Iechyd a Diogelwch:
Roedd y cyfnod ymgynghori ar draws y Brifysgol wedi'i estyn i 10 Mawrth 2010.
- (c) Cofnod 341(i) Galwr Larwm Tân:
Nodwyd bod y system galwr wedi'i osod, ond ei bod, oddi ar hynny, wedi ymyrryd â'r systemau galwr ar Safle'r Normal. Bydd Ystadau a Chyfleusterau yn ymchwilio i hyn.

344. ADRODDIAD GAN IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH YMBELYDREDD A'R DIWEDDARAF AR FIO-BERYGLON

Rhodddwyd cyflwyniad a oedd yn amlinellu'r eitemau isod:

- i. Y sialensiau sy'n wynebu'r Brifysgol o ran rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Ymbelydredd Ïoneiddio a pheryglon Biolegol, ac wrth gydymffurfio â deddfwriaeth gymhleth a thrwm.
- ii. Y cynnydd a wnaethpwyd tuag at yr arfer gorau wrth reoli risgiau sy'n gysylltiedig â Radon, pelydrau-X a ffynonellau agored o ymbelydredd.
- iii. Llunio canllawiau newydd, a luniwyd ar ffurf sy'n fwy dealladwy a hygyrch i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg yn frodorol.
- iv. Y ffaith fod yr Arolwg Peryglon Biolegol ar fin cael ei gwblhau, a llawer o faterion strwythurol a gweithredol eisoes wedi cael sylw. Nodwyd bod yr Arolwg wedi'i ohirio fel y gellid datblygu pecyn hyfforddi ar Beryglon Biolegol (bellach wedi'i gwblhau), y nodwyd ei fod yn ofyn allweddol o ran rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag asiantau biolegol peryglus.

- v. Cyflwyno gwybodaeth ar ffurf ddealladwy, ynghyd â hyfforddiant ar-lein, ar lenwi Asesiadau COSHH ar reoli risgiau sy'n gysylltiedig Mae angen mwy o waith i adnabod anghenion am hyfforddiant yn y Colegau lle defnyddir cemegau peryglus. Byddai cydlynu'r ddarpariaeth o hyfforddiant yn ganolog yn fodd i rannu arbenigedd ac adnoddau ar raddfa ehangach.

Croesawyd y cyflwyniad a'r adroddiad gan y Pwyllgor, a nodwyd bod swyddogaethau'r Swyddog Diogelwch Biolegol a'r Swyddog Gwarchod rhag Ymbelydredd yn ychwanegol at swyddogaeth Dr J Latchford fel Swyddog Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Coleg Gwyddorau Naturiol.

Nodwyd hefyd y farn fod ad-drefnu'r Adran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch er mwyn creu swydd Swyddog Cynnal Iechyd a Diogelwch yn gam cadarnhaol tuag at gefnogi Colegau wrth ddarparu adnodd ychwanegol i ymdrin â materion cymhleth cysylltiedig ag iechyd a diogelwch ar draws y Brifysgol. Nodwyd bod y swyddog hwnnw wedi chwarae rhan allweddol, a oedd weithiau'n flaenllaw, wrth hwyluso gwelliannau yn y modd y rheolir ymbelydredd, peryglon cemegol a pheryglon biolegol.

- vi. Aeth y Pwyllgor ati i ystyried dwy Safon Polisi newydd, sef y Safon Polisi a'r System Reoli ar Ymbelydreddau Ïoneiddio (ffynonellau agored), a'r Safon Polisi ar Reoli Radon.

Wedi ystyriaeth briodol, **cytunwyd** i fabwysiadu'r ddwy Safon Polisi o 1 Ebrill 2010.

345. ADRODDIAD Y GRŴP TASG GWEITHREDU AR DDIOGELWCH

Derbyniwyd adroddiad gan y Grŵp Tasg, a nodwyd, yn benodol, yr eitemau isod:

- i. Arolygu a diweddarau'r Asesiad Risg Corfforaethol yn gyson.
- ii. Mae arolwg ar y gweill ar gyfrifoldeb a rheolaeth y Lle a Amserlennir yn Ganolog.

346. ADRODDIAD Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

Nodwyd yr eitemau allweddol isod:

(a) Gwobrau'r Grŵp Iechyd a Diogelwch

Llwyddiant Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru, yr hwylusir ei gyfarfodydd a'u trefnu gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, wrth ennill y gwobrau isod, mewn cydnabyddiaeth o'i gefnogaeth i fusnesau lleol.

- i. Enillydd – Y Rhaglen Orau yn Gyffredinol.
- ii. Canmoliaeth Uchel – Seminar / Gweithdy Gorau.

(b) Gwobrau Iechyd Galwedigaethol 2009

Llwyddiant y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, yn erbyn cystadleuaeth frwd o sefydliadau eraill, megis E-on a BT, wrth ennill y gwobrau isod am hyrwyddo a chefnogi iechyd a ffyniant.

- i. Enillydd Cyffredinol
- ii. Gwobr y Gorau yn y Categori – Hybu Iechyd a Ffyniant

Roedd y gweithgareddau hyrwyddol isod, yn ategu'r Agenda Iechyd yn unol A'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch, yn ffactorau o bwys mawr wrth i'r Gwasanaethau I a D ennill y Gwobrau Iechyd Galwedigaethol.

- Llwybrau at Iechyd
- Chwa o Awyr Iach ac Ymwybyddiaeth o Alcohol
- Her Colli Pwysau
- Clwb Gofal y Cefn
- Dull y Cefn
- Amser yn y Gampfa
- Teithiau Cerdded yn yr Haf
- Ioga
- Ymwybyddiaeth Ofalgar.

Cytunwyd i ddarparu copi o'r cyflwyniad ar gyfer Gwobr Iechyd 2009 i'r Cyngor.

(c)

Cefnogaeth Anabledd ac Iechyd Meddwl

Nodwyd bod Gweithdy i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl ymysg staff wedi'i gynllunio ac wedi cael derbyniad da.

347.

ADRODDIAD AR Y FFLIW MOCH

Trafodwyd canfyddiadau'r Arolwg a gynhaliwyd i bwysu a mesur effaith fflw moch yn y Brifysgol a'r modd y rheolwyr yr haint.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr Arolwg wedi esgor ar sylwadau cadarnhaol ac adeiladol. Cafwyd ymatebion arbennig o gadarnhaol yng nghyswllt cysylltiadau a gweithredoedd y Brifysgol.

Nodwyd na fu absenoldebau staff oherwydd 'annwyd a fflw' yn uwch yn ystod cyfnod allweddol y fflw moch nag a fu y flwyddyn gyntaf, a hynny'n dangos na fu effaith y fflw moch yn arwyddocaol.

348.

ADRODDIAD AR DDIGWYDDIAD Â DIFFIBRILIWR

Adroddwyd bod staff Canolfan Chwaraeon Maes Glas yn ddiweddar wedi achub bywyd cleient a oedd yn cymryd rhan mewn dosbarth o ymarfer corff dan oruchwyliaeth. Dyma'r ail dro i staff y Ganolfan ddefnyddio eu hyfforddiant a'u hyfedredd i ddadebru cleient wrth ddefnyddio adfywiad y galon a'r ysgyfaint a diffibriliwr.

Bu'r Pwyllgor yn ganmoliaethus o'r staff, a nodwyd bod y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch eisoes wedi ysgrifennu at y staff er mwyn gwerthfawrogiad o'r Brifysgol.

Yna, cafwyd trafodaeth ar y graddau yr oedd diffibrilwyr ar gael, a **chytunwyd** i arolygu'r angen am fwy o unedau mewn mannau eraill yn y Brifysgol.

349.

UNRHYW FATERION ERAILL

- i. Damweiniau a Digwyddiadau: Nodwyd bod y ddwy ddamwain/ y ddau ddigwyddiad canlynol wedi bod o fewn Undeb y Myfyriwr, a'u bod yn destun ymchwiliad:
 - Clwb Tanddwr – roedd myfyriwr wedi cael triniaeth ddatgywasgu ar ôl deif. Mae amgylchiadau'r digwyddiad yn cael eu harchwilio ar y cyd â'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.
 - Serendippedd – roedd dau fyfyrwr wedi mynd i'r ysbyty ar ôl damweiniau ar y cwrs ymosod pwmpiadwy.
- ii. Papurau Salwch Meddygol: Nodwyd bod papurau salwch traddodiadol i'w disodli, o

Ebrill 2010, â Phapurau Ffitrwydd, a ddylai bellach gynnwys cyngor y meddyg teulu ar sut i gefnogi gweithwyr i dychwelyd i'r gwaith yn fuan.

- iii. Adeilad Alun Roberts: Lleisiwyd pryder ynglŷn â'r tymheredd oer mewn rhannau o'r adeilad. Nododd y Cyfarwyddwr Ystadau fod rheoli'r tymheredd yn lleol yn anodd mewn rhai manau o fewn Ystâd y Brifysgol, ond bod systemau rheoli modern yn cael eu gosod pryd bynnag yr oedd cyfle i wneud hynny. Cyngorodd y dylai'r staff gysylltu â desg gymorth yr Ystadau pan godai materion o'r math yma. Dywedodd yn glir nad oedd y Brifysgol yn argymhell y dylid prynu na defnyddio offer gwresogi lle ar gyfer swyddfeydd, yn annibynnol ar y system gwresogi canolog.